

SESIWN 2: CANEUON PROTEST AC ANGHYDRADDOLDEB HILIOI

Ystod oedran: 7-11 oed

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn myfrio ynghylch anghydraddoldeb hiliol, yn meddwl pam yr oedd yn arwyddocaol yn y Mudiad Hawliau Sifil ac yn ystyried sut y mae'n ei amlygu'i hun heddiw. Bydd y dysgwyr yn defnyddio tair cân i archwilio sut y mae cerddorion ar draws gwahanol *genres* wedi defnyddio'u caneuon fel math o brotest er mwyn ymladd dros gymdeithas decach a mwy cydradd. Byddant yn edrych yn fanwl ar y geiriau, yn deall sut y cânt eu saernïo i gyfleu neges, ac yna'n myfrio'n feirniadol arnynt er mwyn amlygu'r syniadau pwysig.

Amcanion dysgu

- Myfrio ar ganeuon a ddefnyddiwyd i brotestio yn erbyn anghydraddoldeb hiliol.
- Defnyddio sgiliau gwrando i archwilio gwahanol *genres* o gerddoriaeth (jazz, gwerin a hip-hop).
- Deall y gall geiriau fod â phwrpas difrifol.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn nodi negeseuon pwysig mewn caneuon protest ac yn myfrio arnynt.

Cwestiynau allweddol

- Sut y mae cantorion yn defnyddio'u caneuon i gyfleu eu neges?
- Pa eiriau yw'r rhai amlycaf i mi?

Adnoddau

- Sioe Sleidiau: *Codi Ein Lleisiau* (sleidiau 11–14)
- Nodiadau cefndir i'r athro
- Taflen gweithgaredd: *Ymatebion i Ganeuon Rhyddid*

Amlinelliad o'r sesiwn

Cyn y sesiwn

- Gofalwch fod gennych fynediad i'r caneuon a ddefnyddir yn y prif weithgaredd; mae'r rhain ar gael ar yr holl brif safleoedd ffrydio cerddoriaeth. Darllenwch y nodiadau cefndir i'r athro isod i gael rhagor o wybodaeth am yr artistiaid.
 - Nina Simone – *I Wish I Knew How It Would Feel To Be Free*
 - Joan Baez – *We Shall Overcome*
 - J. Cole – *Be Free**

***D.S. Mae'r fersiwn wreiddiol o *Be Free* yn cynnwys iaith amhriodol/anodd felly pwyll piau hi; efallai y byddai'n well defnyddio fersiynau 'glân' amgen tebyg i'r perfformiad byw ar raglen *The Late Show with David Letterman*.**

Tasg gychwynnol (10 munud)

Ras fwrdd

- Tynnwch linell i lawr canol eich bwrdd gwyn. Rhannwch y grŵp yn ddau dîm a gofynnwch i'r timau sefyll mewn rhes bob ochr i'r bwrdd gwyn. Esboniwch fod angen i bob unigolyn redeg at y bwrdd ac ysgrifennu un peth (gair neu gymal byr) y maent yn ei gofio am y Mudiad Hawliau Sifil o'r sesiwn ddiwethaf. Ar ôl ysgrifennu eu gair neu gymal dylent redeg yn ôl, rhoi'r pin ysgrifennu i'r dysgwr nesaf yn y rhes ac yna eistedd i lawr.
- Y tîm buddugol fydd yr un cyntaf i sicrhau bod ei holl aelodau wedi ychwanegu rhywbeth gwahanol at y bwrdd ac yna eistedd i lawr yn dawel.
- Ar ôl y ras, edrychwch ar yr hyn y mae'r dysgwyr wedi'i ysgrifennu a thrafodwch ystyr pob gair fel grŵp.

Gwahaniaethu

Gwneud pethau'n haws: Os bydd y gweithgaredd hwn yn heriol i'ch grŵp, yna trafodwch gynnwys y wers ddiwethaf a gofynnwch i'r dysgwyr gyfrannu'r hyn y maent yn ei gofio.

Gweithgaredd 2.1 (45 munud)

Archwilio caneuon protest ynghylch anghydraddoldeb hiliol (Taflen gweithgaredd)

- Esboniwch i'r dysgwyr fod llawer o gantorion wedi defnyddio'u cerddoriaeth i ddangos eu cefnogaeth i'r Mudiad Hawliau Sifil a bod eu caneuon yn fath o brotest. Roeddent yn gobeithio darbwylo'r bobl a oedd mewn grym i newid cyfreithiau America er mwyn creu cymdeithas decach a mwy cydradd.
- Esboniwch fod anghydraddoldeb hiliol yn bodoli o hyd yn y byd modern, er gwaethaf llwyddiannau'r Mudiad Hawliau Sifil. A ydyn nhw'n gallu meddwl am enghreifftiau? Dywedwch wrthynt fod artistiaid hip-hop yn dal i ddefnyddio cerddoriaeth fel math o brotest.

- Dosbarthwch Daflen Gweithgaredd 2.1 a darllenwch trwy'r cwestiynau fel grŵp i wirio bod y dysgwyr yn eu deall.
- Defnyddiwch sleidiau 11–14 i rannu tair enghraifft o artistiaid sy'n canu am anghydraddoldeb hiliol. Gwrandewch ar y caneuon fel grŵp, neu dewiswch un gân yn dibynnu ar lefel y grŵp a'r amser sydd ar gael. Efallai yr hoffech gael copi o eiriau'r caneuon fel bod modd i'r disgyblion eu dilyn.
 - **Nina Simone – *I Wish I Knew How It Would Feel To Be Free* (1967)**
Roedd Nina Simone (1933–2003) yn gantores ac yn bianydd a fu'n cyfansoddi ac yn perfformio caneuon i gefnogi'r mudiad hawliau sifil. Roedd ei cherddoriaeth yn rhychwantu sawl *genre*, gan gynnwys blues, canu gwerin a jazz. Edrychwch ar y nodiadau cefndir i'r athro i gael rhagor o wybodaeth.
 - **Joan Baez – *We Shall Overcome* (1963: recordiwyd yn wreiddiol yn 1948)**
Cerddor gwerin yw Joan Baez (a aned yn 1941). Bu cerddorion gwerin hefyd yn canu caneuon a ddaeth yn Ganeuon Rhyddid. Roedd Joan yn un o'r cerddorion cyntaf i ddefnyddio'i phoblogrwydd yn gyfrwng ar gyfer protest gymdeithasol; gan ganu a gorymdeithio dros hawliau dynol, cydraddoldeb a heddwch.
 - **J. Cole – *Be Free* (2014)**
Rapiwr hip-hop yw J. Cole (a aned yn 1985), sy'n defnyddio'i gerddoriaeth i roi sylwadau ar yr anghydraddoldeb hiliol yn America sy'n parhau o hyd er gwaethaf y cynnydd a gyflawnwyd ers dyddiau'r Mudiad Hawliau Sifil.
- Ar ôl gwranddo ar bob cân, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i ateb y cwestiynau canlynol ar Daflen Gweithgaredd 2.1:
 - Am beth y mae'r gân hon yn sôn, yn eich barn chi?
 - O ran y geiriau, pa gymalau neu eiriau oedd y rhai amlycaf?
 - Pa awyrgylch sy'n cael ei gyfleu gan gyflwyniad y gân?
 - Yn eich barn chi, pa mor effeithiol y mae'r gân yn ymdrin â'r testun dan sylw?
- Ar ôl gwranddo ar bob cân ac ymateb iddi, rhannwch y dysgwyr yn chwe grŵp. Neilltuwch ddau grŵp i bob cân a gofynnwch i'r dysgwyr gymharu eu syniadau am y gân a roddwyd iddynt. Dilynwch hynny trwy ofyn i'r grwpiau adrodd yn ôl ac, fel dosbarth, trafodwch sut y mae'r gwahanol ganeuon yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.

Gwahaniaethu

Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

- *Pam yr oedd y caneuon hyn yn cael eu galw yn Ganeuon Rhyddid yn hytrach na chaneuon cydraddoldeb?*
- *Pam yr oedd Joan Baez a Nina Simone yn canu am ryddid ac nid am gydraddoldeb?*

Sesiwn lawn (5 munud)

- Yn dilyn y drafodaeth, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r geiriau neu'r cymalau allweddol o bob cân y maen nhw'n teimlo eu bod yn cyfleu protest, er enghraifft, "overcome", "free", "chains".

- Gofynnwch beth y mae'r dosbarth yn meddwl amdano pan glywant y gair cadwyni. Trafodwch y ffaith fod y caneuon hyn yn defnyddio cadwyni yn drosiadol yn hytrach nag yn llythrennol. A yw pobl dduon "mewn cadwyni" heddiw? Os ydynt, sut a pham? A ydyn nhw'n gallu rhoi enghreifftiau? Os bydd amser, gallai hyn arwain at drafodaeth am broblemau rhagfarn hiliol yn yr heddlu, fel y gwelwyd yn ddiweddar yn y Deyrnas Unedig ac yn yr Unol Daleithiau.

Syniadau pellach

- Lluniwch gyflwyniad hirach am bob cân neu artist. Gallai hynny olygu bod y dysgwyr yn gwneud rhywfaint o waith ymchwil ynghylch y canwr/gantores, yn ceisio crynhoi'r gân mewn brawddeg, yn dewis eu hoff eiriau ac yn creu llun i'w darlunio. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr ddarlunio'r aderyn ym mhennill olaf *I Wish I Knew How It Would Feel To Be Free*.
- Ysgrifennwch gofnod dyddiadur protestiwr sydd newydd fod mewn rali, neu rywun sydd newydd deithio ar y bus a gweld Rosa Parks yn gwrthod ildio'i sedd.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Nodiadau cefndir i'r athro

Nina Simone a'i cherddoriaeth

Roedd Nina Simone yn gerddor dawnus a ddysgodd ganu'r piano yn fuan pan oedd hi'n blentyn. Ei bwriad oedd bod yn banydd cyngerdd ond darganfu bod ei hil yn ormod o rwystr, felly dechreuodd ganu a chanu'r piano mewn barrau a datblygu gyrfa fel cantores. Roedd rhai yn ei galw'n 'Frenhines Soul', ond gwrthodai gael ei chategoreiddio a daeth i gwmpasu sawl *genre* yn ei cherddoriaeth, gan gynnwys jazz, blues, soul, canu gwerin a chanu pop. Ar ddechrau'r 1960au, dechreuodd ymwneud â'r Mudiad Hawliau Sifil, gan ysgrifennu caneuon i ysbrydoli pobl i fynnu eu hawliau. Dywedodd, "Rhoddais y gorau i ganu caneuon serch a dechrau canu caneuon protest am fod angen caneuon protest." Gydag amser, daeth i ymddiddori mwy a mwy yn hanes Americanaidd Affricanaidd, a bu'n byw ar ynys Barbados ac yn Liberia am gyfnod. Erbyn ei marwolaeth yn 2003, yr oedd hi wedi datblygu presenoldeb pwerus ac angerddol ar lwyfan yn ogystal â chefnogaeth ryngwladol.

Cychwyn jazz

Fel Simone, gwelodd llawer o gerddorion du eraill nad oedd modd iddynt wneud eu henw yn y byd cerddoriaeth glasurol ac felly daethant yn gerddorion jazz. Mae jazz yn *genre* cerddoriaeth eang ac amrywiol a gychwynnodd yn nhaleithiau'r de yn America ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'n gyfuniad o sawl elfen gerddorol, gan gyfuno harmoni Ewropeaidd â dylanwadau Affricanaidd, fel chwarae byrfyfyr a rhythmau cymhleth, a gyrhaeddodd America yn sgil y fasnach gaethion. Dylanwad arall o fyd y caethion du oedd cerddoriaeth yr eglwys, a oedd yn cynnwys caneuon ysbrydol, gyda chanu Gospel yn treiddio i wreiddiau'r blues.

Daeth pobl i gysylltu cerddoriaeth jazz mewn modd symbolaidd â'r Mudiad Hawliau Sifil gan fod gan jazz ddiwylliant lle câi pobl eu barnu ar sail eu gallu yn hytrach na ffactorau megis eu hil. Cefnogodd cerddorion jazz yr achos, gan ddefnyddio eu henwogrwydd a'u cerddoriaeth i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chyfiawnder cymdeithasol.

Adfywiad gwerin

Mae gwerin yn derm cyffredinol am gerddoriaeth sydd â'i gwreiddiau mewn diwylliant poblogaidd traddodiadol. Fel rheol, mae cyfansoddwyr canu gwerin yn anhysbys a throsglwyddir y gerddoriaeth ar lafar o un genhedlaeth i'r nesaf. Mae'r gitâr a'r llais yn nodweddion amlwg hefyd.

Cafwyd adfywiad gwerin yn America yn ystod yr 1940au, ac yr oedd yn fwyaf poblogaidd ynghanol yr 1960au. Roedd Joan Baez, a oedd yn artist gwerin amlwg iawn yn yr 1960au, yn canu caneuon traddodiadol yn ei harddull ei hun (fel y Gân Rhyddid *We Shall Overcome*) ac roedd hi'n gweithredu'n wleidyddol mewn modd agored gyda'r Mudiad Hawliau Sifil. Daeth y cysylltiad rhwng cantorion gwerin a Chaneuon Rhyddid ag amlygrwydd a bri i'r *genre* yn y cyfnod hwn. O dipyn i beth, daeth canu gwerin yn fwy o ran o'r brif ffrwd, yn enwedig gyda thwf y mudiadau heddwch yn ystod Rhyfel Fietnam a'r adfywiad gwerin a sbardunwyd gan arddull pop-gwerin Bob Dylan.

Hip-hop

I ddechrau, roedd diwylliant hip-hop yn canolbwyntio ar y syniad o ddiweddarau recordiadau, agweddau a phrofiadau clasurol ar gyfer cynulleidfaoedd modern. Cerddoriaeth rythmig â chyfeiliant rapio yw hip-hop ac fe'i hysbrydolir yn aml gan soul, funk a rhythm and blues. Dechreuodd yn yr 1970au ac yr oedd yn arbennig o boblogaidd ymhlith Americanwyr Affricanaidd ifanc a oedd yn byw yn ardal y Bronx. Yn yr 1980au a dechrau'r 1990au,

dechreuodd hip-hop arallgyfeirio a dod o dan ddylanwad arddulliau eraill. Erbyn canol yr 1990au, hwn oedd y *genre* o gerddoriaeth a oedd yn gwerthu orau a pharhaodd ei boblogrwydd yn negawd cyntaf y ganrif hon, gan ddylanwadu ar y brif ffrwd bop. Yn y Deyrnas Unedig, mae dylanwad sîn hip-hop yr Unol Daleithiau yn drwm ar gerddoriaeth hip-hop Brydeinig ond elfennau o gerddoriaeth Jamaica sy'n sylfaen iddi.

Roedd geiriau sawl cân hip-hop a rapio cynnar yn canolbwyntio ar faterion cymdeithasol, fel gwirioneddau bywyd yn y prosiectau tai yn America. Rhoddodd y *genre* le i Americanwyr Affricanaidd ifanc godi eu llais a chael gwrandawriad.

"Mae Americanwyr ifanc du sy'n dod allan o'r mudiad hawliau sifil wedi defnyddio diwylliant hip-hop yn yr 1980au a'r 1990au i ddangos cyfyngiadau'r mudiad"¹

Mae gwahanol artistiaid hip-hop yn America wedi parhau â'r traddodiad o ganolbwyntio ar faterion cymdeithasol yn gysylltiedig â hil, gan ddefnyddio cerddoriaeth i brotestio ynghylch tensiynau â'r heddlu. Yn y Deyrnas Unedig, wrth i boblogrwydd cerddoriaeth grime a ganolbwyntiai ar drais a dull y gangster o fyw leihau, mae cenhedlaeth newydd o artistiaid hip-hop â chydwybod gymdeithasol wedi dod i'r golwg gan amlygu anghyfiawnderau megis hiliaeth a rhyfel.

Cyfeiriadau

en.wikipedia.org/wiki/Jazz

jazz.about.com/od/historyjazztimeline/a/JazzCivilRights.htm

en.wikipedia.org/wiki/American_folk_music_revival

en.wikipedia.org/wiki/Hip_hop_music

en.wikipedia.org/wiki/British_hip_hop

¹ Diawara, Manthia. "Homeboy Cosmopolitan". In *Search of Africa*, 245–46. Cambridge, MA: Harvard University Press, 1998

Taflen Gweithgaredd 2.1 Ymateb i Ganeuon Rhyddid

Am beth y mae'r gân hon yn sôn, yn eich barn chi?

O ran y geiriau, pa gymalau neu eiriau oedd y rhai amlycaf?

Pa awyrgylch sy'n cael ei gyfleu gan gyflwyniad y gân?

Yn eich barn chi, pa mor effeithiol y mae'r gân yn ymdrin â'r testun dan sylw?